O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 426 (Cy. 68)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (ger Llangiwa, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012

Gwnaed	*17 Chwefror 2012*
Yn dod i rym	*27 Chwefror 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd – Amwythig (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd a chyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei gyflawni arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Chwefror 2012. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (ger Llangiwa, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Dros Dro ar Draffig) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 27 Chwefror 2012 ac a ddaw i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o'r gefnffordd, yn Sir Fynwy, sydd wedi eu nodi yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd deithio, ar gyflymdra o fwy na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 2.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd deithio, ar gyflymdra o fwy na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu defnyddio cerbyd yn y fath fodd ag i beri iddo oddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 yn ystod cyfnodau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 4 mewn grym.

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 ond yn gymwys ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod cymhwysiad y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

7. Bydd hyd y Gorchymyn hwn yn ddim mwy na 12 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 17 Chwefror 2012

G MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; disodlwyd Adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLEN 1

RHYCHWANT Y TERFYN CYFLYMDER 10 MYA DROS DRO A'R GWAHARDDIAD DROS DRO AR ODDIWEDDYD

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei gyffordd â'r is-ffordd i Langiwa am 130 metr i gyfeiriad y gogledd hyd at ganolbwynt Pont Llangiwa.

ATODLEN 2

RHYCHWANT Y TERFYN CYFLYMDER 40 MYA DROS DRO

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 50 metr i'r gogledd o ganolbwynt ei gyffordd â'r is-ffordd i Langiwa am 570 metr i gyfeiriad y de.